# Safonau'r Gymraeg
# Cynllun Gweithredu

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau o ran y Gymraeg drwy is-ddeddfwriaeth (Safonau Rheoleiddio'r Gymraeg). Rhestrir y safonau sy'n berthnasol i Gyngor Dinas Caerdydd yn 'Hysbysiad Cydymffurfio – Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011'.

Lluniwyd y ddogfen hon i gydymffurfio â'r safonau canlynol y mae gan Gyngor Dinas Caerdydd ddyletswydd i gydymffurfio â nhw – 157, 163, 169 a 159, 165, 171. Bydd y ddogfen hon yn nodi sut y bwriadwn gydymffurfio â safonau darparu gwasanaethau, safonau llunio polisïau a'r safonau gweithredol a gyflwynwyd i'r Cyngor gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae hefyd yn nodi ein trefniadau ar gyfer goruchwylio, hyrwyddo a hwyluso'r safonau hyn.

Mae copi o'r safonau a gyflwynwyd i Gyngor Dinas Caerdydd ac y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/caerdydd-ddwyieithog

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i wireddu ein gweledigaeth o greu dinas wirioneddol ddwyieithog i Gymru ac rydym eisoes yn cydymffurfio ag 83% o ofynion y safonau drwy ein Cynllun Iaith Gymraeg blaenorol.

Nodwn isod y mesurau ychwanegol a roddwyd ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion newydd sy'n deillio o'r safonau newydd i'r Gymraeg.

# SAFONAU DARPARU GWASANAETHAU

| SUT RYDYM YN BWRIADU CYDYMFFURFIO | HYRWYDDO A HWYLUSO | GORUCHWYLIO |
|---|---|---|
| **COFNODI DEWIS IAITH**<br>Dyluniwyd CRM SAP i gofnodi dewis iaith defnyddwyr gwasanaethau. Mae rhai cyfarwyddiaethau (e.e. Gofal Cymdeithasol) yn cofnodi dewis iaith ar eu cronfeydd data eu hunain, sy'n cael eu cynnal gan y gwasanaeth.<br><br>**GOHEBIAETH**<br>Bydd holl e-byst canlynol y Cyngor yn ogystal â'r pennawd llythyr corfforaethol newydd yn cynnwys y datganiad canlynol yn y troednodyn i fodloni gofynion safonau 2, 3 a 7.<br><br>***Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu â chi yn eich dewis iaith boed yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog dim ond i chi roi gwybod i ni pa un sydd well gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn creu unrhyw oedi.***<br><br>***The Council welcomes correspondence in English and Welsh and we will ensure that we communicate with you in the language of your choice, whether that's English, Welsh or bilingual as long as you let us know which you prefer. Corresponding in Welsh will not lead to any delay.***<br><br>Cyhoeddwyd canllawiau ar Gyfathrebu'n Ddwyieithog ar dudalen fewnrwyd Caerdydd Ddwyieithog i gynorthwyo staff wrth gydymffurfio â'r gofynion hyn.<br><br>**GALWADAU FFÔN**<br>Cyhoeddwyd canllawiau staff newydd ar alwadau yn Gymraeg i gynorthwyo staff wrth fodloni'r gofynion hyn.<br><br>Daw'r mwyafrif helaeth o alwadau ffôn i ganolfan gyswllt C2C y Cyngor sydd â thîm Cymraeg penodedig. | Er mwyn hyrwyddo a hwyluso'r gwaith o weithredu'r safonau, mae'r Cyngor wedi llunio a diweddaru canllawiau i staff. Yn eu plith mae:<br>• Crynodeb o'r 'Safonau Darparu Gwasanaethau'<br>• Cyfathrebu'n Ddwyieithog<br>• Gwasanaeth Derbynfa Dwyieithog<br>• Cynnal Cyfarfodydd yn Ddwyieithog<br>• Galwadau Cymraeg<br>• Nodyn Canllaw: Arwyddion a Hysbysiadau Dwyieithog<br>• Cyfieithu<br><br>Mae'r canllawiau hyn ar gael i staff ar Fewnrwyd Caerdydd Ddwyieithog ac fe'u hyrwyddwyd yn rheolaidd i staff drwy sianeli cyfathrebu sefydledig gan gynnwys yn y Brîff Craidd misol a chylchlythyron 'Materion Cymraeg' a ddosberthir i bob aelod o staff. Mae erthyglau rheolaidd hefyd ar hafan mewnrwyd y Cyngor.<br><br>Cyn y safonau, cydlynodd y tîm Cyfathrebu a Chaerdydd Ddwyieithog ymgyrch hyrwyddo sy'n cynnwys erthyglau rheolaidd, sesiynau galw heibio i staff a phosteri ym mhrif swyddfeydd y Cyngor.<br><br>Mae arwyddion derbynfa (safon 67) a logos llofnod e-bost (safon 134) hefyd ar gael i staff ar dudalen fewnrwyd Caerdydd Ddwyieithog yn ogystal â chopi llawn o'r safonau, adroddiadau monitro blynyddol, a ffurflen cais am gyfieithiad | Gofynnwyd i bob Cyfarwyddiaeth gwblhau ymarfer mapio i nodi safonau a fydd yn heriol i'w timau ac i gynnwys ynddo gamau gweithredu perthnasol yn y cynlluniau darparu gwasanaeth.<br><br>Cafodd camau gweithredu penodol yn ymwneud â chydymffurfio â'r safonau eu cynnwys yng nghynlluniau busnes pob gwasanaeth i 2016/17 yn ogystal â chamau gweithredu i sicrhau capasiti digonol i gynnig gwasanaethau dwyieithog.<br><br>Mae gan bob cyfarwyddiaeth gyfrifoldeb cyffredinol am weithredu safonau'r Gymraeg yn eu cyfarwyddiaeth eu hunain gan gynnwys cadw cofnodion a monitro.<br><br>Mae gan arweinydd y Cyngor bortffolio'r Gymraeg er mwyn sicrhau y caiff statws ar y lefel |

| | | |
|---|---|---|
| Ar y cyfeiriadur ffôn canolog, gall staff ddefnyddio hidlydd i weld yr holl siaradwyr Cymraeg yn eu gwasanaeth / cyfarwyddiaeth.<br><br>**CYFARFODYDD**<br>Cyhoeddwyd canllawiau staff newydd ar gynnal cyfarfodydd dwyieithog i gynorthwyo staff wrth fodloni'r gofynion hyn.<br><br>Bydd tîm Caerdydd Ddwyieithog yn cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn fewnol i bob cyfarwyddiaeth a gwasanaeth.<br><br>**DOGFENNAU A FFURFLENNI**<br><u>Cyfarfodydd (41)</u><br>Caiff agendâu a chofnodion eu diweddaru ar wefan Caerdydd Modern.Gov<br><br>Mae ffurflen gais cynnwys gwe'r Cyngor a'r ffurflen cais am gyfieithiad yn atgoffa pob aelod o staff i gynnwys y canlynol yn unol â safonau 49 a 50A.<br><br>***This document is available in Welsh / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg.***<br><br>***This form is available in Welsh / Mae'r ffurflen hon ar gael yn Gymraeg.***<br><br>**ARWYDDION A HYSBYSIADAU**<br>Bydd y gyfarwyddiaeth Cynllunio Strategol, Priffyrdd, Traffig a Thrafnidiaeth yn sicrhau bod arwyddion dwyieithog Cymraeg-yn-gyntaf yn ofyniad ym mhob tendr, contract ac ati perthnasol, a bod y gofyniad hwn yn cael ei fodloni a'i fonitro. Pwysleisiwyd y gofyniad i osod y testun Cymraeg yn gyntaf i bob contractwr.<br><br>Cyhoeddwyd nodyn canllaw newydd ar arwyddion a hysbysiadau i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r gofynion hyn.<br><br>**GWEFANNAU A GWASANAETHAU AR-LEIN**<br>Caiff gofynion yr iaith Gymraeg eu hystyried yn weithredol fel rhan o | ar-lein.<br><br>Mae'r cynnwys gwe a'r ffurflen cais am gyfieithiad wedi'u diweddaru i atgoffa staff i gynnwys y datganiadau corfforaethol i gydymffurfio â safonau 2, 3 a 7 (Gohebiaeth), 49 (ffurflenni) a 50A (dogfennau).<br><br>**CYFIEITHU A CHYNGOR AR BOLISI**<br>Mae Caerdydd Ddwyieithog yn cynnig gwasanaeth cyfieithu cyflawni o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg, a gwasanaethau cyfieithu ar y pryd i holl gyfarwyddiaethau'r Cyngor.<br><br>Mae'r tîm bob amser ar gael i gynnig arweiniad a chyngor i bob aelod o staff y Cyngor, ynghyd â sefydliadau, cwmnïau ac unigolion sy'n cynnig gwasanaethau ar ran y Cyngor, ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg, cyfieithu ac ymrwymiad y Cyngor i Safonau statudol y Gymraeg.<br><br>**HYRWYDDWYR**<br>Mae gan y Cyngor rwydwaith o gydlynwyr a hyrwyddwyr Cymraeg ar draws y Gwasanaethau, sy'n ategu gwaith Caerdydd Ddwyieithog wrth roi Safonau'r Gymraeg ar waith. Ymhlith cyfrifoldebau aelodau mae:<br><br>• Sicrhau bod y Gwasanaeth yn cydymffurfio â safonau iaith Gymraeg y Cyngor<br>• Adborth ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg gan y Gwasanaeth i'r grŵp, ac fel arall yn ôl yr angen.<br>• Adborth ar unrhyw gwynion neu broblemau ynghylch y Gymraeg gan ddefnyddwyr | uchaf yn yr awdurdod.<br><br>Aiff Adroddiad Monitro Blynyddol y Cyngor ar y Gymraeg gerbron y Cyngor llawn cyn ei anfon at Gomisiynydd y Gymraeg i sicrhau bod pob cynghorydd yn ymwybodol o'r cynnydd sy'n cael ei wneud â safonau'r Gymraeg, gan amlygu unrhyw feysydd sydd angen eu gwella. |

| | | |
|---|---|---|
| unrhyw friff project neu fandad project newydd fel rhan o'r datganiad gofynion.<br><br>Mae TGCh yn parhau i roi gwybod i gwsmeriaid fod ganddynt gyfrifoldeb i ddarparu deunydd Cymraeg gyda phob project sy'n ymwneud â chwsmeriaid. Maent yn rhoi gwybod am hyn yn ystod y cam briffio. Cyfrifoldeb y cwsmer yw penderfynu a fydd angen agweddau dwyieithog ar unrhyw system newydd ar ôl cael y cyngor hwn, felly maent yn gyfrifol am eu bodloni eu hunain eu bod yn cyrraedd y safonau.<br><br>Bydd Tîm y We yn cynnal archwiliad o bob adran o www.caerdydd.gov.uk i sicrhau bod pob tudalen ar gael yn Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys gwirio tudalennau, ffurflenni, dogfennau, dolenni ac ati.<br><br>Bydd opsiwn English / Cymraeg yn adran llywio'r wefan. Mae'n cynnig dolen uniongyrchol rhwng y cynnwys Saesneg a'r cynnwys Cymraeg cyfatebol.<br><br>**GWASANAETHAU DERBYNFA**<br>Cyhoeddwyd canllawiau newydd ar gynnal gwasanaethau derbynfa i gynorthwyo staff wrth fodloni'r gofynion hyn.<br><br>Byddwn yn parhau i weithredu Strategaeth Sgiliau Cymraeg Gorfforaethol y Cyngor sydd am gynyddu nifer y staff â sgiliau Cymraeg mewn swyddi rheng flaen. Mae'r Strategaeth hon yn sicrhau bod gofynion ieithyddol yr holl swyddi rheng flaen yn cael eu hasesu a'u dynodi fel rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu heb ofyniad ieithyddol.<br><br>Rydym yn parhau i gynnig pecyn hyblyg o gyrsiau iaith Gymraeg a ariennir yn gorfforaethol ac a redir gan Cymraeg i Oedolion (Prifysgol Caerdydd). Gall staff fynychu dros 100 o gyrsiau yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg ar amser ac mewn lleoliad cyfleus.<br><br>**DYFARNU GRANTIAU** | gwasanaeth i'r grŵp.<br>• Dosbarthu dogfennau a gwybodaeth berthnasol yn y gwasanaeth.<br>• Cydlynu ymateb ar gyfer yr Adroddiad Monitro Blynyddol i'r gwasanaeth unigol.<br><br>Mae'r rhwydwaith cydlynwyr yn cwrdd bob mis.<br><br>**STRATEGAETH SGILIAU CYMRAEG GORFFORAETHOL**<br>Cymeradwywyd y Strategaeth hon (SSCG) gan y Cyngor llawn, gyda chefnogaeth lawn yr Undebau, yn 2009. Diben y SSCG yw sicrhau bod gennym staff sydd â'r sgiliau ieithyddol angenrheidiol i gynnig gwasanaeth dwyieithog ar y pwynt cyswllt cyntaf.<br><br>Mae'r strategaeth yn cynnig pecyn cymorth ymarferol i helpu rheolwyr  wrth asesu eu gofynion o ran y Gymraeg, fel bod modd asesu rhai swyddi fel rhai 'Cymraeg hanfodol' a bod modd cynnig hyfforddiant yn y Gymraeg i staff.<br><br>**HYFFORDDIANT IAITH GYMRAEG**<br>Cefnogir staff i ddefnyddio eu sgiliau'r iaith Gymraeg wrth gyfathrebu â'r cyhoedd. Ar hyn o bryd gall staff ddewis o dros 100 o gyrsiau a gymeradwyir ym Mhrifysgol Caerdydd neu yn y gymuned, sy'n amrywio o ddysgwyr llwyr i siaradwyr rhugl ar amser ac mewn lleoliad sy'n addas iddyn nhw.<br><br>Mae cyllideb gorfforaethol ar gyfer hyfforddiant iaith Gymraeg, felly mae'r cyrsiau am ddim i holl staff Cyngor Caerdydd (blaenoriaeth i staff rheng flaen) a chaiff staff eu horiau wedi'u | |

| | | |
|---|---|---|
| Diweddarwyd dogfennau grant perthnasol i adlewyrchu'r gofynion newydd a gofynnir i bob ymgeisydd am ei ddewis iaith.<br><br>**DYFARNU CONTRACTAU**<br>Diweddarwyd manylebau tendr i adlewyrchu'r gofynion newydd.<br><br>Bydd y ddogfen newydd "Canllaw Gwerthu i'r Cyngor" yn cynnwys y datganiad canlynol.<br><br>***"Yn unol â Safonau'r Gymraeg (Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Dinas Caerdydd - Isadran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) gellir cyflwyno tendrau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Ni fydd tendr ar gyfer contract a gyflwynwyd yn y Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynwyd yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg materion eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau, ac mewn perthynas â'r raddfa amser ar gyfer hysbysu'r rheiny sy'n cyflwyno tendrau). Bydd y Cyngor yn cyfathrebu â'r rheiny sy'n cyflwyno tendrau yn eu dewis iaith, p'un a bod hynny drwy gyfrwng y Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog."***<br><br>Bydd tîm mewnol Caerdydd Ddwyieithog yn cynnig gwasanaethau cyfieithu ar y pryd, a bydd y Telerau ac Amodau safonol i gontractwyr gwasanaeth yn cynnwys cymal a ddiwedderir sy'n ymdrin â'r gofynion deddfwriaethol newydd.<br><br>**CYRSIAU A GYNIGIR GAN GORFF**<br>Bydd Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cysylltu â phob dysgwr i ofyn am eu dewis iaith (86) ac yn cynnwys cwestiwn ychwanegol ar hyn ar y ffurflenni gwerthuso. | credydu am fynychu cyrsiau.<br><br>**HYFFORDDIANT YMWYBYDDIAETH O'R IAITH GYMRAEG AR-LEIN**<br><br>Nod y cwrs yw i staff:<br><br>• Deall pwysigrwydd y Gymraeg o ran cynnig gwasanaethau'r Cyngor yng Nghymru.<br>• Deall rôl a chyfrifoldeb staff wrth gynnig gwasanaethau Cymraeg a dwyieithog.<br>• Asesu sut maen nhw'n cynnig gwasanaeth Cymraeg ar hyn o bryd a nodi meysydd i'w gwella.<br>• Deall a gallu defnyddio geiriau a brawddegau Cymraeg syml a allai fod yn ddefnyddiol wrth ddelio â defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg eu hiaith.<br><br>Bydd y modiwl ar-lein yn galluogi'r Cyngor i gyflwyno cyrsiau ymwybyddiaeth i tua thraean o'i weithlu ar-lein. | |

# SAFONAU LLUNIO POLISÏAU

| | | |
|---|---|---|
| Mae'r Offeryn Integreiddio Polisi wedi'i ddatblygu'n **Offeryn Sgrinio Polisi Statudol** i adlewyrchu'r cyd-destun polisi esblygol. Mae nifer o ofynion statudol yn gymwys os ydych yn datblygu strategaeth, polisi neu weithgaredd yn y Cyngor sy'n debygol o effeithio ar bobl, cymunedau neu ddefnydd tir mewn unrhyw ffordd. Gall methu â chydymffurfio â'r gofynion hyn, neu fethu â dangos sylw dyledus iddynt, olygu y gallai'r Cyngor wynebu her gyfreithiol neu geryddon o fathau eraill.<br><br>Bydd cwblhau'r Offeryn Sgrinio Polisi yn sicrhau bod holl strategaethau, polisïau a gweithgareddau Cyngor Dinas Caerdydd yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a chyfrifoldebau statudol perthnasol. Pan fo angen rhoi ystyriaeth fanylach i fater, bydd yr Offeryn Sgrinio yn nodi p'un ai a oes angen cynnal asesiad llawn o'r effaith, fel y bo'n berthnasol.<br><br>Mae'r prif ofynion statudol y mae'n rhaid i strategaethau, polisïau neu weithgareddau eu hystyried yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Deddf Cydraddoldeb 2010 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb<br>• Bill Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru<br>• Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru – Cydamcanu – Cydymdrechu<br>• Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn<br>• Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn<br>• Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011<br>• Asesiad o'r Effaith ar Iechyd<br>• Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd<br>• Asesiad Amgylcheddol Strategol<br><br>Bydd yr Offeryn Sgrinio Polisi hwn yn galluogi'r Cyngor i fodloni gofynion yr holl ddarnau hyn o ddeddfwriaeth fel rhan o ddull sgrinio integredig na fydd yn cymryd mwy nag awr i'w gwblhau fel arfer. Yn | Cyfeirier at y golofn 'Sut Rydym yn Bwriadu Cydymffurfio' (chwith) | Mae'r Offeryn yn rhan o'r broses gorfforaethol. Rhaid i'r holl adroddiadau y mae angen penderfyniad cabinet llawn arnynt gwblhau blaengynllun i ddechrau. Roedd y blaengynllun yn nodi p'un ai a oes angen i'r strategaeth/polisi neu weithgaredd fod yn destun offeryn sgrinio ai peidio. Os oes angen, caiff y broses ei chwblhau cyn i'r adroddiad fynd i'r cabinet ar gyfer penderfyniad terfynol.<br><br>Bydd Caerdydd Ddwyieithog yn dal i gynnig cyngor ar gydymffurfio ac yn hyrwyddo'r gofynion drwy sianeli cyfathrebu mewnol. |

| | | |
|---|---|---|
| bwysicach fyth, bydd yn sicrhau bod dull y Cyngor yn un cydgysylltiedig a gwybodus.<br><br>Mae’r Offeryn yn rhan o’r broses gorfforaethol. Rhaid i’r holl adroddiadau y mae angen penderfyniad cabinet llawn arnynt gwblhau blaengynllun i ddechrau. Roedd y blaengynllun yn nodi p’un ai a oes angen i’r strategaeth/polisi neu weithgaredd fod yn destun offeryn sgrinio ai peidio. Os oes angen, caiff y broses ei chwblhau cyn i’r adroddiad fynd i’r cabinet ar gyfer penderfyniad terfynol.<br><br>Caiff yr offeryn ei ddiweddaru'n barhaus wrth i swyddogion perthnasol â chyfrifoldeb dros feysydd penodol amlygu unrhyw newid i’r amgylchedd polisi. Er enghraifft, caiff yr offeryn ei ddiweddaru i adlewyrchu unrhyw ofynion penodol o bolisïau’r Cyngor sy’n tarddu o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.<br><br>Yn y ffordd hon gallwn annog proses gydgysylltiedig o wneud penderfyniadau a sicrhau bod unrhyw waith datblygu a wneir yn y Cyngor yn ymwybodol o ofynion ehangach a'r effaith bosibl ar faterion pwysig megis yr iaith Gymraeg.<br><br>I sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei hystyried fel elfen ganolog o unrhyw waith datblygu polisi mae hefyd wedi cael ei chynnwys ochr yn ochr â’r 9 nodwedd a ddiogelir a amlygwyd gan y Ddeddf Cydraddoldeb Unigol ac mae’n rhan amlwg o Mae Pawb yn Bwysig (Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor). Mae hyn yn galluogi’r iaith Gymraeg i gael ei phrif-ffrydio gyda’r 9 nodwedd a ddiogelir ym mhob rhan o’r sefydliad.<br><br>O fewn yr offeryn sgrinio ei hun, mae adran sy’n annog ystyriaeth o unrhyw effaith (cadarnhaol, negyddol, niwtral neu ansicr) ar yr iaith Gymraeg. Gweler isod:<br><br>A fydd y Polisi/Strategaeth/Project yn cael effaith wahaniaethol ar unrhyw un o’r canlynol:<br>• Anabledd | | |

| | | |
|---|---|---|
| • Ailbennu Rhywedd<br>• Priodasau a Phartneriaethau Sifil<br>• Beichiogrwydd a Mamolaeth<br>• Hil<br>• Crefydd/Cred<br>• Rhyw<br>• Cyfeiriadedd Rhywiol<br>• Yr iaith Gymraeg<br><br>Gellir cwblhau'r Offeryn Sgrinio fel hunanasesiad neu fel rhan o sesiwn a hwyluswyd, pe bai angen cymorth pellach arnoch.<br><br>Fel dadansoddiad critigol, mae nifer o strategaethau, cynlluniau a gweithgareddau mawr (megis y Cynllun Corfforaethol) wedi'u hystyried trwy'r offeryn sgrinio statudol, sydd wedi helpu i ddatblygu polisïau; fodd bynnag mae'n bwysig bod ymwybyddiaeth ehangach o rywfaint o'r gofynion statudol yn cael ei hyrwyddo. Mae'n bwysig bod swyddogion ym mhob rhan o'r Cyngor yn deall naws a diben y ddeddfwriaeth, a gwneir llawer o'r gwaith hwn trwy academi Caerdydd, yn enwedig cyrsiau Ymwybyddiaeth Cydraddoldeb a chyrsiau'r iaith Gymraeg.<br><br>**Caiff yr Offeryn Sgrinio Polisi Statudol ei adolygu i fodloni gofynion penodol y safonau Llunio Polisïau.**<br><br>Gellir sicrhau bod pob asesiad a gwblheir ar gael, ac mae prosesau wedi'u sefydlu i sicrhau bod yr holl strategaethau, polisïau a gweithgareddau newydd yn cael eu hasesu, os oes angen, drwy'r Offeryn Sgrinio. Mae'r Cyngor wedi gwneud yn siŵr ei bod yn ystyriaeth gorfforaethol, a bod yr holl gyfarwyddiaethau yn ei hystyried wrth ddatblygu polisïau, strategaethau a gweithgareddau newydd. Cyfrifoldeb y gwasanaethau perthnasol yw sicrhau bod y Tîm Corfforaethol yn ymwybodol o unrhyw ddiweddariadau priodol ar gyfer meysydd polisi penodol. | | |

# SAFONAU GWEITHREDOL

| | | |
|---|---|---|
| **98**<br>Cyhoeddwyd polisi ar ddefnyddio’r Gymraeg yn fewnol at y diben o hyrwyddo a hyrwyddo’r defnydd o’r iaith ar dudalen fewnrwyd Caerdydd Ddwyieithog.<br><br>**99 Swyddi Newydd**<br>Ar hyn o bryd cynigir contractau i gyflogeion newydd yn Gymraeg neu Saesneg yn unol â’u dewis iaith.<br><br>**100-104**<br>Caiff llythyr arolwg ei anfon at yr holl staff yn rhoi gwybod iddynt am eu hawliau dan y safonau, yn ogystal â gofyn i staff gofnodi eu sgiliau iaith Gymraeg a’u dewis iaith.<br><br>**105-111 Polisïau AD**<br>Mae’r polisïau a nodir yn safonau 105-111 ar gael yn ddwyieithog.<br><br>**112-119 Cwynion a Disgyblu**<br>Disodlwyd polisi disgyblu a datrys y Cyngor gan bolisi datrys newydd o fis Ebrill 2016. Bydd yn cyfeirio at hawliau staff sydd am gael gwybodaeth/dilyn prosesau yn Gymraeg.<br><br>***Dan Safonau’r Gymraeg, mae gan gyflogeion yn hawl i wneud cwynion ac ymateb i gwynion neu gyhuddiadau a wneir yn eu herbyn drwy’r broses ddisgyblu yn Gymraeg. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr holl ohebiaeth, dogfennau ac unrhyw weithdrefnau, cyfarfodydd a chanlyniadau ar gael yn Gymraeg. Byddwn yn cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o’r Gymraeg i’r Saesneg ar gyfer cyfarfodydd cysylltiedig onid y’u cynhelir yn Gymraeg heb fod angen gwasanaethau cyfieithu ar y pryd.***<br><br>**120 Meddalwedd**<br>Mae Cysgliad ar gael i bob aelod o staff sydd â chyfrifiadur fel rhyngwyneb bwrdd gwaith, a hysbysebir y ffaith ei fod ar gael yn aml | Mae Gwasanaethau Pobl AD wedi creu cynllun gweithredu i weithredu’r ‘Safonau Gweithredu’ y maent yn ddarostyngedig iddynt.<br><br>Caiff llythyr arolwg ei anfon at yr holl staff yn rhoi gwybod iddynt am eu hawliau dan y safonau, yn ogystal â gofyn i staff gofnodi eu sgiliau iaith Gymraeg a’u dewis iaith. | Gofynnwyd i bob Cyfarwyddiaeth gwblhau ymarfer mapio i nodi safonau a fydd yn heriol i’w timau ac i gynnwys ynddo gamau gweithredu perthnasol yn y cynlluniau darparu gwasanaeth.<br><br>Cafodd camau gweithredu penodol yn ymwneud â chydymffurfio â’r safonau eu cynnwys yng nghynlluniau busnes pob gwasanaeth i 2016/17 yn ogystal â chamau gweithredu i sicrhau capasiti digonol i gynnig gwasanaethau dwyieithog.<br><br>Mae gan bob cyfarwyddiaeth gyfrifoldeb cyffredinol am weithredu safonau’r Gymraeg yn eu cyfarwyddiaeth eu hunain gan gynnwys cadw cofnodion a monitro. |

| | | |
|---|---|---|
| yn y Cylchlythyr Materion Cymraeg ac erthyglau yn 'Your Inbox'. Gall staff ofyn am gopi trwy'r Ddesg Gwasanaeth.<br><br>**121-126 Y Fewnrwyd**<br>Bydd TGCh, Cyfathrebu a Chaerdydd Ddwyieithog yn gweithio i sicrhau bod y Cyngor yn bodloni ei ddyletswydd i greu gwefan fewnrwyd gwbl ddwyieithog i staff o fewn y dyddiadau cydymffurfio a nodir.<br><br>**127 Asesu sgiliau iaith**<br>Caiff llythyr arolwg ei anfon at yr holl staff yn rhoi gwybod iddynt am eu hawliau dan y safonau, yn ogystal â gofyn i staff gofnodi eu sgiliau iaith Gymraeg a'u dewis iaith.<br><br>Ar hyn o bryd rhaid i staff ddilysu eu data personol eu hunain ar DigiGov (system aD), a gall Cyngor gofnodi gallu staff o ran yr iaith Gymraeg (ac ieithoedd eraill).<br><br>**128-132 Hyfforddiant**<br>Bydd ffurflenni cadw lle ar gyrsiau ar fewnrwyd y Cyngor yn gofyn i staff a ydynt am ddilyn hyfforddiant yn Gymraeg (128).<br><br>Mae modd hefyd sicrhau cydymffurfiaeth drwy Academi Cymru Gyfan, sy'n wefan e-hyfforddiant sydd ar gael i'r holl staff, yn ogystal â photensial gweithio gydag Awdurdodau Lleol eraill yn Ne-ddwyrain Cymru i drefnu hyfforddiant yn Gymraeg.<br><br><u>Hyfforddiant Iaith Gymraeg</u><br>Cefnogir staff i ddefnyddio eu sgiliau'r iaith Gymraeg wrth gyfathrebu â'r cyhoedd. Ar hyn o bryd gall staff ddewis o dros 100 o gyrsiau a gymeradwyir ym Mhrifysgol Caerdydd neu yn y gymuned, sy'n amrywio o ddysgwyr llwyr i siaradwyr rhugl ar amser ac mewn lleoliad sy'n addas iddyn nhw.<br><br>Mae cyllideb gorfforaethol ar gyfer hyfforddiant iaith Gymraeg, felly mae'r cyrsiau am ddim i holl staff Cyngor Caerdydd (blaenoriaeth i staff rheng flaen) a chaiff staff eu horiau wedi'u credydu am fynychu | | |

| | | |
|---|---|---|
| cyrsiau.<br><br><u>Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg ar-lein</u><br>Mae'r modiwl hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg ar gael i staff ar Wefan Cronfa Ddysgu'r Cyngor.<br><br>Nod y cwrs yw i staff:<br><br>• Ddeall pwysigrwydd y Gymraeg o ran cynnig gwasanaethau'r Cyngor yng Nghymru.<br>• Deall rôl a chyfrifoldeb staff wrth gynnig gwasanaethau Cymraeg a dwyieithog.<br>• Asesu sut maen nhw'n cynnig gwasanaeth Cymraeg ar hyn o bryd a nodi meysydd i'w gwella.<br>• Deall a gallu defnyddio geiriau a brawddegau Cymraeg syml a allai fod yn ddefnyddiol wrth ddelio â defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg eu hiaith.<br><br>Bydd y modiwl ar-lein yn galluogi'r Cyngor i gyflwyno cyrsiau ymwybyddiaeth i tua thraean o'i weithlu ar-lein.<br><br>**136 – Gofynion asesu ieithyddol ar gyfer pob swydd wag.**<br>Mae'r strategaeth sgiliau iaith Gymraeg gorfforaethol yn cynnig pecyn cymorth ymarferol (adnodd asesu ieithyddol) i helpu rheolwyr wrth asesu eu gofynion o ran y Gymraeg, fel bod modd asesu rhai swyddi fel rhai 'Cymraeg hanfodol' a bod modd cynnig hyfforddiant yn y Gymraeg i staff.<br><br>Caiff rheolwyr eu hatgoffa i gwblhau ffurflenni asesu ieithyddol bob tro y caiff swydd newydd ei recriwtio drwy system DigiGov AD. Oherwydd nifer y swyddi a hysbysebir gan y Cyngor (800+ yn 2014/15) rydym yn ymchwilio i ymarferoldeb integreiddio'r swyddogaeth hon (adnodd asesu ieithyddol) ym mhroses recriwtio DigiGov.<br><br>**137-140 – Ffurflenni Cais**<br>Caiff ffurflenni cais eu diweddaru i fodloni'r gofynion newydd. | | |

| | | |
|---|---|---|
| **141-143 Arwyddion a ddangosir yng ngweithle’r corff**<br>Cyhoeddwyd nodyn canllaw newydd ar arwyddion a hysbysiadau i sicrhau bod staff yn ymwybodol o’r gofynion hyn.<br><br>**144 – Cyhoeddiadau sain a negeseuon yng ngweithle’r corff**<br>Gofyniad yn rhan o gynllun gweithredu Safonau’r Gymraeg Gwasanaethau Pobl AD | | |